Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Crynodeb Gweithredol
# Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru, Mehefin 2026

Bu Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cyfarfod ar 2 Mehefin, ac roedd y pynciau dan sylw'n cynnwys etholiadau'r Senedd, diwygiadau deddfwriaethol newydd, a blaenoriaethau ymarferwyr rheng flaen. Cafwyd trafodaethau ar ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth ledled Cymru, ynghyd â chydnabyddiaeth o gymhlethdod cynyddol yn yr amgylchedd gweithredol, yn enwedig mewn cysylltiad â phwysau ariannol, diwygio systemau, a thensiynau cynyddol mewn cymunedau.

## Crynodeb o'r Trafodaethau

**Gwarineb mewn Bywyd Cyhoeddus ac Etholiadau**
Bu'r aelodau yn edrych yn ôl ar etholiadau diweddar y Senedd. Er bod partneriaid plismona wedi adrodd llai o broblemau na'r disgwyl, mae yna gefndir pryderus yn parhau o gamdriniaeth, niwed ar-lein, a hyder yn dirywio ymysg darpar ymgeiswyr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y pedair gwlad i hyrwyddo ymgysylltu democrataidd iach, yn cynnwys canllawiau i Gynghorwyr ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mynegwyd pryderon hefyd am rôl gynyddol Deallusrwydd Artiffisial, a gwybodaeth anghywir yn dylanwadu ar anrhefn gyhoeddus ac o bosibl yn tanseilio prosesau democrataidd.

**Datblygiadau Deddfwriaethol a Pholisi**
Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o ddiwygiadau sylweddol, yn cynnwys:

- **Papur Gwyn ar Ddiwygio Plismona** a chynigion sy'n effeithio ar lywodraethu, atebolrwydd, a chyflawni lleol
- **Gweithredu'r Ddeddf Dedfrydu**, yn cynnwys mesurau rhyddhau'n gynnar a phwysau cysylltiedig ar wasanaethau
- **Datblygiadau cyfiawnder ieuenctid a gwasanaeth prawf**, yn cynnwys datganoli pellach posibl a threfniadau partneriaeth newydd
- **Adolygiad o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** yn asesu cyfraniad a gwerth rolau plismona cymunedol ledled Cymru

Tynnodd aelodau sylw at faint y newid sydd ar waith gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod diwygiadau yn adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig, yn enwedig er mwyn amddiffyn partneriaethau lleol, gweithgarwch atal a gwasanaethau yn y gymuned.

**Arferion Newydd a Modelau Cyflawni**

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am:

- **Baneli partneriaeth ieuenctid a modelau atal**, arddangos canlyniadau cynnar cadarnhaol wrth adnabod a chefnogi pobl ifanc diamddiffyn
- **Llysoedd goruchwylio dwys**, gyda chynnig Cymreig cryf yn cael ei gyflwyno i gefnogi carfan benodol o ferched yn Abertawe. Mae'r cynnig yn adlewyrchu dadansoddiad o ddata Cymru gyfan ac mae wedi cael cefnogaeth gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd ledled Cymru, a bwriad y dysgu yw llywio dulliau ehangach.

Mae'r mentrau yma'n tynnu sylw at arloesedd parhaus ledled Cymru ond maent yn atgyfnerthu'r angen am fuddsoddiad a chydlyniad parhaus.

**Lleisiau o'r Rheng Flaen – Prif Gasgliadau**

Ystyriodd y Bwrdd gasgliadau o arolwg ymarferwyr Diogelwch Cymunedol a nododd:

- **Prif faterion:** trais difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau
- **Grwpiau sydd wedi'u heffeithio fwyaf:** plant a phobl ifanc, oedolion diamddiffyn, a merched a genethod
- **Heriau'r system:** cyllid tameidiog, prosesau beichus a chapasiti Partneriaethau Diogelwch Cymunedol cyfyngedig

Roedd yna gonsensws cryf bod y casgliadau'n cyd-fynd â phwysau ehangach ar y system, a'u bod yn darparu sylfaen tystiolaeth gadarn i lywio polisi a thrafodaethau diwygio. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at alwadau cyson gan ymarferwyr am gyllid cynaliadwy a ffocws cryfach ar ymyrraeth gynnar ac atal. Cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio'r adroddiad i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU drwy ohebiaeth ffurfiol.

**Cydlyniant Cymunedol a Risgiau Presennol**

Tynnodd aelodau sylw at bryderon cynyddol o ran:

- Cynnydd mewn trosedd casineb (yn cynnwys gwrth-semitiaeth a thensiynau eraill sy’n seiliedig ar grefydd)
- Effaith digwyddiadau byd-eang ar gymunedau lleol
- Risgiau tymhorol sy’n gysylltiedig â phwysau’r haf ac effeithiau costau byw

Mae partneriaid yn gweithio gyda’r Swyddfa Gartref a rhwydweithiau lleol i fonitro ac ymateb i risgiau newydd, gyda phwyslais ar barodrwydd ac atal.

**Camau Gweithredu a'r Camau Nesaf**

- **Gohebiaeth ffurfiol gan y Bwrdd** i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn rhannu tystiolaeth reng flaen a dylanwadau ar benderfyniadau polisi
- Parhau â **gwaith traws-sector ar warineb mewn bywyd cyhoeddus**, yn cynnwys cyfarfod dilynol cyn etholiadau yn y dyfodol
- **Ymgysylltu parhaus â diwygiadau cenedlaethol**, gan sicrhau bod safbwyntiau Cymreig yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau
- Datblygu **modelau a chanllawiau diogelwch cymunedol** ymhellach i gefnogi effeithiolrwydd a chysondeb Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws Cymru
- Parhau i fonitro **risgiau cydlyniant cymunedol** a rhannu gwybodaeth ac arferion gorau